

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 287 –31 Mawrth 2006
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2006.

Adroddiad Y Cadeirydd

Cyflwynodd ECS ei hadroddiad. Nodwyd/codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegodd ECS ei llongyfarchiadau i John Walter Jones ar ei benodiad fel Cadeirydd newydd S4C a dymunodd yn dda iddo.
- Cydnabuodd aelodau'r Awdurdod arweiniad Elan a mynegi eu gwerthfawrogiad iddi.
- Yn dilyn penderfyniad Dafydd Wigley i ymddiswyddo fel aelod o fwrdd S4C mynegodd Elan ei gwerthfawrogiad o waith Dafydd ar y Bwrdd yn enwedig fel Cadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio. Angen penderfynu a oes angen aelod ychwanegol a Chadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio yn dilyn ymadawiad Dafydd.
- Adroddodd ECS ar gynhadledd y "Voice of the Listener and Viewer".

Adroddiad Cwynion a Gwifren Gwylwyr

Adroddodd Elin Morris ei bod wedi derbyn ymateb ITV ac S4C i'r gwyn *Y Byd ar Bedwar* / Cyngor Sir Gwynedd a'i bod nawr yn disgwyl am ymateb y Cyngor erbyn 13 Ebrill.

Adroddiad ar system Cwynion a Chydymffurfiaeth

Cyflwynwyd adroddiad ar system Cwynion a Chydymffurfiaeth S4C. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cwynion yn y bore cytunwyd mewn egwyddor bod angen gwneud newidiadau i Gôd Cwynion S4C a bod angen geirio'r newidiadau mewn ffordd glir a syml i'r cyhoedd. Bydd Elin a Tim Hartley yn gweithredu â'r newidiadau.

Adroddiad Prif Weithredwr

Codwyd/nodwyd y pwyntiau canlynol:-

- **BBC** – nodwyd bod y cyfnod ymgynghorol ar y Siarter yn dod i ben ar 28 Ebrill.
- **BBC** – mae trafodaeth yn dal i barhau rhwng S4C a'r BBC parthed y drafft presennol o'r cytundeb partneriaeth strategol.

- **Cynulliad** –bydd Iona Jones a John Walter Jones yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon y Cynulliad ar 5 Ebrill ynglyn â'r Papur Gwyn y BBC.
- **Tendr Cydymffurfiaeth** – nodwyd bod angen dewis aelodau i gyfweld ymgeiswyr ar gyfer y cytundeb Monitro.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Ymchwil
- Yr Æyl Ffilm Geltaidd – adroddodd IJ bod *Con Passionate* wedi ennill yn yr adran Cyfres Ddrama yn yr Æyl.